

## ADRODDIAD I'R CABINET

**Dyddiad y cyfarfod:** 14 Chwefror 2023

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Beca Brown

**Swyddog Cyswllt:** Debbie Anne Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Addysg,  
Gwasanaethau Corfforaethol

**Teitl yr eitem:** Ysgol Hirael

---

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

- 1.1** Caniatáu neilltuo £3,000,000 o gyfanswm o £18m o gyllideb Gwedd 2 Bangor, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynladwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael. Byddai'r gyllideb yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes lwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- 1.2** Gofyn i'r Cabinet ragdybio adolygiad y Cynllun Asedau drwy gadarnhau cyfraniad o £1,050,000 o'r Cynllun Asedau ar gyfer 35% o arian cyfatebol i wireddu prosiect Ysgol Hirael.
- 1.3** Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.1 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael, gofynnir am ganiatâd y Cabinet i lunio a chyflwyno achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

### 2. CEFNDIR

#### 2.1 YSGOL HIRAEI

Mae Ysgol Hirael wedi'i lleoli yng nghanol dinas Bangor a chanddi gapasiti o 208, gyda 188 o ddysgwyr rhwng 3-11 oed ar y gofrestr (Medi 2022). Mae saith dosbarth yn yr ysgol gyda 21 dysgwr ar gyfartaledd ym mhob dosbarth. Yn 2022-23, bu i Ysgol Hirael dderbyn dyraniad cyllidol o £624,000 gyda chost y disgybl o £4,312.

Mae Ysgol Hirael yr unig ysgol gynradd yn nalgylch Bangor sydd heb dderbyn unrhyw fuddsoddiad fel rhan o gyllid Band A neu Band B. Byddai buddsoddi £3m yn Ysgol Hirael yn parhau i alluogi'r Adran Addysg i fuddsoddi'n ddigonol yn yr uwchradd yn ardal Bangor. Mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael ac uwchradd Bangor yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes lwyddiannus i Lywodraeth Cymru.

Erbyn hyn, mae cyflwr ac addasrwydd ysgolion cynradd Bangor ar gyfartaledd yn dda iawn yn dilyn buddsoddiad diweddar, ond mae cyflwr ac elfennau hygrychedd Ysgol Hirael angen sylw penodol gan ei bod ar hyn o bryd yn disgyn i gategori C, sydd yn sylweddol is na gweddill yr ysgolion (oni bai am Ysgol Ein Harglwyddes sydd yn derbyn buddsoddiad fel rhan o Band B).

**Cyswllt:**  
01286 679868  
01286 679490  
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Daeth anghenion Ysgol Hirael i sylw'r Adran pan sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor ym mis Mehefin 2017. Yn ystod y cyfarfodydd ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer y weledigaeth ar gyfer addysg ym Mangor, a chododd cyflwr Ysgol Hirael yn rhai o'r paneli adolygu dalgylch rheiny a nodwyd bryd hynny bod yr adeilad yn annigonol.

Fel rhan o'r trefniadau yn nalgylch Bangor gyda rhaglen Band A, bu i Ysgol y Faenol gael estyniad sylweddol, derbyniodd Ysgol Glancegin sydd ar gyrion y ddinas ysgol newydd sbon, ac yn ddiweddar adeiladwyd ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd. Yn anffodus, ni lwyddwyd i ymestyn y gyllideb a oedd ar gael ar gynffon diwedd cyfnod Band A i fuddsoddi a diwallu anghenion Ysgol Hirael, ac yn sgil y buddsoddiad diweddar yn yr ysgolion cynradd eraill ym Mangor, mae anghenion Ysgol Hirael a'r anghyfartaledd sydd yn bodoli rhyngddi a chyflwr ac amgylchedd dysgu ysgolion cynradd eraill yn y ddinas wedi eu hamlygu fwyfwy.

Yn sgil y pandemig cafwyd rhywfaint o oedi i raglen Band B, ond mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fuddsoddi a gwella cyflwr adeiladau ac amgylchedd dysgu Ysgol Hirael, ac adlewyrchir hynny yn yr ymrwymiad a nodir yng [Nghynllun y Cyngor](#) (tud 21). Nodir yr angen i fuddsoddi a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael er mwyn cael gwared â'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor.

Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sirchau y bydd cyflwr ein hysgolion ar draws y stad yng nghategori A neu B, ac mae adeiladau newydd sydd wedi derbyn buddsoddiad yn golygu llai o wariant ar gynnal a chadw adeiladau, ynghyd â llai o gostau ynni.

Gweler y tabl isod ar gyfer categori cyflwr Ysgolion Cynradd Bangor -

|   | Ysgol Hirael | Ysgol Cae Top | Ysgol Faenol | Ysgol Garnedd | Ysgol Ein Harglwyddes | Ysgol Glancegin | Ysgol Llandygai |
|---|--------------|---------------|--------------|---------------|-----------------------|-----------------|-----------------|
| Categori cyflwr adeiladau (criteria'r Cyngor) | C            | A             | A            | A             | C                     | A               | B               |

Derbyniwyd amcangost o £3 miliwn gan yr Uned Datblygu Eiddo i gyflawni'r gwaith yn Ysgol Hirael gyda'r bwriad o:

- leihau'r anghyfartaledd yng nghyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion cynradd yn ninas Bangor
- codi categori cyflwr Ysgol Hirael i A
- wella'r elfennau addasrwydd a hygyrchedd
- wella'r adeilad ar gyfer defnydd cymunedol
- dymchwel ac ail-adeiladu un o adeiladau'r ysgol sydd o wneuthuriad Vic Hallam

**Cyswilt:**  
01286 679868  
01286 679490  
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



- sicrhau amgylchedd dysgu sydd yn cwrdd â gofynion yr unfed ganrif ar hugain a Chwricwlwm i Gymru.

## 2.2 CAMAU WEDI EU CWBLHAU

### 2.2.1 Cais i Lywodraeth Cymru am addasiad i gyllideb Band B

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, bydd angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru y bydd modd trosglwyddo £3m o fewn amlen Band B er mwyn symud ymlaen efo'r prosiect a llunio achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

**2.2.2** Mae cais i neilltuo cyllideb o £3,000,000 ar gyfer Ysgol Hirael wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 13 Ionawr 2023. Bydd angen cadarnhau penderfyniad y Cabinet cyn eu cyfarfod Panel Buddsoddi ar 16 Chwefror 2023 er mwyn iddynt ystyried cefnogi ein cais i drosglwyddo cyllid i brosiect Ysgol Hirael o brosiect arall yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy.

## 2.3 CYLLID CYFALAF

### 2.3.1 Grant Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy

Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru yn 2017 er mwyn gwireddu prosiectau'r Adran Addysg (Band B). Mae dull ariannu'r rhaglen yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 65% o'r costau, tra bod y Cyngor yn cyfrannu'r 35% sydd yn weddill.

Yng nghyd-destun cyllideb Ysgol Hirael, golyga hynny £1,950,000 gan Lywodraeth Cymru, sef 65% o gyllideb llawn o £3,000,000 ar gyfer gwneud gwelliannau yn Ysgol Hirael, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu'r 35% arall.

### 2.3.2 Grant Gofal Plant

Yn ychwanegol i gyllid Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy, mae'r Adran Plant wedi cynnwys anghenion darpariaeth gofal plant yn Ysgol Hirael ar gyfer y wedd nesaf o arian cyfalaf er mwyn ymgorffori gofod pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth yn yr ysgol. Nid oes unrhyw ymrwymiad ariannol wedi ei gytuno hyd yma.

## 3. RHESYMAU DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

### 3.1 Amgylchedd dysgu ac adnoddau'r ysgol yn anaddas

Bellach, nid yw'r adnoddau a'r amgylchedd ddysgu yn Ysgol Hirael yn cwrdd â gofynion yr 21ain ganrif oherwydd bod cyflwr yr ysgol wedi dirywio. Byddai costau cynnal a chadw yn debygol o gynyddu yn sgil diffyg buddsoddiad amserol sydd yn rwystr i'r ysgol allu cyflwyno modelau dysgu arloesol.

**Cyswllt:**  
01286 679868  
01286 679490  
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



### 3.2 Sicrhau buddsoddiad o fewn amserlen Band B

Byddai sicrhau cefnogaeth y Cabinet er mwyn symud ymlaen gydag Ysgol Hirael fel prosiect yn galluogi'r Adran Addysg i lunio a chyflwyno achos fusnes ar gyfer Ysgol Hirael yn ddi-rwystr (gan nad oes proses statudol nac ad-drefnu).

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1** Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo £3,000,000 o gyllideb gweddill amlen Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynladwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael.
- 4.2** Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.1 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael, rhagwelir y byddai modd bwrw ati'n syth i lunio achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDY CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Bwriedir rhoddi ystyriaeth i ofnyon y ddeddf llesiant a chynnal asesiad yng nghyd-destun 7 nod llesiant y Ddeddf yn sgil yr ymgysylltu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol.

### Cydraddoldeb

Mae gan yr Adran Addysg gyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb ynghyd â dyletswyddau cyffredinol er sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i ystyried effaith unrhyw newid i bolisi neu weithdrefn o'r newydd ar bobl efo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig, sef hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol wedi ei lunio a bydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd yn sgil ymgysylltu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol. Gweler **Atodiad 1**.

## 6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### 6.1 Swyddog Monitro

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Cyswllt:**  
01286 679868  
01286 679490  
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



## 6.2 Pennaeth Cyllid

“Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir. Yn amlwg, canlyniad hyn fyddai lleihau’r adnoddau fyddai ar gael er mwyn gwireddu cynlluniau eraill, a bydd angen i awdur yr adroddiad argyhoeddi’r Cabinet fod blaenoriaethu cynllun Ysgol Hirael yn briodol.”

## 6.3 Barn yr Aelod Lleol – Y Cynghorydd Nigel Pickavance.

“Mae’n bleser mawr gennyf gyfrannu at yr adroddiad sydd i’w roi gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Mae corff llywodraethu’r Ysgol a minnau fel yr aelod lleol o’r farn bod Ysgol Hirael wedi’i gadael ar ôl o ran y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac o ganlyniad mae’r Ysgol yn wynebu costau cynnal a chadw cynyddol, yr adeilad wedi dyddio ac yn dadfeilio a yn bwysicaf oll, mae hyn yn cael effaith andwyol ar addysg yr holl ddisgyblion.

Rwyf felly’n croesawu’r adroddiad hwn ac yn diolch i’r swyddogion a fu’n allweddol i’w roi at ei gilydd. Mae’r adroddiad yn amlgu’r holl faterion yr ydym wedi’u codi fel ysgol a chorff llywodraethu a’r gwelliannau y bydd y buddsoddiad yn ei gael ar yr ysgol.

Roedd yn arbennig o dda darllen y bydd yr ysgol yn cynnwys adnoddau modern a fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw anghenion corfforol penodol, y bydd yr ysgol yn cynnig gwell adnoddau a chyfleusterau ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol i gryfhau’r Gymraeg.

Rwyf wedi cael tair merch sydd wedi cael profiad o addysg yn Ysgol Hirael ac o ystyried safon wael y cyfleuster mae’r safonau addysgu a phroffesiynoldeb yn rhagorol. O’r pennaeth i’r rheolwyr a’r holl staff, maent yn sicr yn haeddu’r offer i hybu eu cynnig o addysgu perffaith.

Gorffennaf drwy fynegi diolchgarwch am welliant ym mhrofiad pob disgybl yn Ysgol Hirael ac maent ar flaen y gad o ran blaenoriaeth a chyfleoedd addysgol. Bydd y buddsoddiad newydd yn gwella safon bywyd ysgol i’r disgyblion, yn cynnig cyfleoedd newydd iddynt a gwell profiadau yn ystod amserau ysgol a thu allan.

Ar ran yr etholwyr yr wyf yn eu gwasanaethu, disgyblion Ysgol Hirael a’r holl staff sy’n ffurfio’r awyrgylch deuluol, rwy’n mawr obeithio y bydd Ysgol Hirael yn derbyn y cyllid y mae’n ei haeddu er mwyn iddi allu parhau i ffynnu wrth ddal i fyny â gweddill Bangor.”